ATODLEN 7

Deunydd risg penodedig, cig a wahenir yn fecanyddol a thechnegau cigydda

**Staenio a gwaredu deunydd risg penodedig**

**15.**—(1) Bydd meddiannydd unrhyw fangre lle y tynnir ymaith ddeunydd risg penodedig, sy'n methu â chydymffurfio â phwynt 3 of Atodiad V i Reoliad TSE y Gymuned (marcio a gwaredu) yn euog o dramgwydd.

(2) At ddibenion y pwynt hwnnw —

(a) ystyr staenio yw trin y deunydd (pa un ai drwy drochi, chwistrellu neu daenu rywfodd arall) gan ddefnyddio —

(i) toddiant 0.5% yn ôl pwysau/cyfaint o'r cyfrwng lliwio Patent Blue V (E131, Colur Index 1971 Rhif 42051 (**1**)); neu

(ii) pa bynnag gyfrwng lliwio arall a gymeradwyir mewn ysgrifen gan Weinidogion Cymru neu'r Asiantaeth Safonau Bwyd; a

(b) rhaid taenu'r staen fel y bo'r lliw yn hollol weladwy ac yn parhau felly—

(i) dros holl arwyneb y toriad a'r rhan fwyaf o'r pen yn achos pen dafad neu afr; a

(ii) yn achos pob deunydd risg penodedig arall, dros holl arwyneb y deunydd.

(3) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw ddeunydd risg penodedig y bwriedir ei ddefnyddio fel y darperir yn Erthygl 1(2)(b) ac (c) o Reoliad TSE y Gymuned.

(**1**) Cyhoeddir y Colour Index gan The Society of Dyers and Colourists o Perkin House, 82 Grattan Road, Bradford, Gorllewin Swydd Efrog BD1 2JB.